**Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd am 7:00 y.h. Nos Fawrth, 16 o Ionawr 2018 yn Ysgol Gynradd, Cwm y Glo.**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Avril Jones (Cadeirydd), Cemlyn Jones, Llywelyn Williams, Haf Williams, Goronwy Hughes

**Aelod Cyngor Gwynedd**: Y Cynghorydd Berwyn Parry Jones (Aelod dros Cwm y Glo)

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Hefin Jones, Alan Pritchard, Richard Robinson, Rhys Parry, Phil Roberts, Clifford Williams, Meirwen Lloyd, Martin Jones

Ar gychwyn y cyfarfod, eglurodd y Clerc nad oedd y Cadeirydd yn gallu bod yn bresennol i'r cyfarfod ac eglurodd ymhellach ei fod wedi derbyn llythyr gan yr Is-gadeirydd, Y Cynghorydd Meryl Green yn ymddiswyddo o'r Cyngor felly byddai angen ethol aelod sydd yn bresennol heno i Gadeirio'r cyfarfod

**Penderfynwyd:**

a) Etholwyd y Cynghorydd Avril Jones yn Gadeirydd am y cyfarfod.
b) Diolchwyd i'r Cynghorydd Meryl Green am ei gwaith i'r Cyngor a'r ardal dros y blynyddoedd tra iddi wasanaethu ar y Cyngor ac i'r Clerc anfon llythyr i ddiolch iddi
c) Peidio llenwi'r swydd o Is-gadeirydd hyd nes bydd mwy yn bresennol

**96. Croeso gan y Cadeirydd**

Estynnwyd croeso gan y Cadeirydd i bawb i'r cyfarfod

**97. Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd yr ymddiheuriadau fel a nodwyd uchod

**98. Datgan buddiant personol.**

Rhain i'w cofnodi wrth fynd drwy'r agenda

**99. Cadarnhau cofnodion cyfarfod mis Rhagfyr 2017**

Cadarnhawyd cofnodion mis Rhagfyr yn gywir ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd

**100. Materion yn codi o'r cofnodion.**

**101. I ystyried pa gamau gellir eu cymryd gan Gyngor Cymuned Llanrug am wneud cais at Gyngor Gwynedd fel yr Awdurdod Priffyrdd i ostwng cyflymder o 40 milltir yr awr i 30 milltir yr awr o Pen Greuor, ble mae'r 40 m.y.a. yn cychwyn a'r arwydd 30 m.y.a. cyn cyrraedd y sgwâr.**

**Penderfynwyd:**

Cysylltu a Chyngor Gwynedd fel Awdurdod Priffyrdd i wneud cais i ostwng y cyflymder o 40 i 30 milltir yr awr hyd Pen Greuor

**102. I dderbyn sylwadau ar faterion y Fynwent.**

Adroddodd y Cynghorydd Goronwy Hughes fod Pwyllgor y Fynwent wedi cyfarfod ac wedi trafod ehangu'r fynwent. Eglurodd y byddai angen ail godi'r / wal ym mhen draw'r Fynwent ac byddai angen arian i wneud hyn yn gyllideb 2018 / 2019. Adroddwyd ymhellach bydd angen ystyried ffioedd y fynwent ar gyfer 2018 / 2019

**Penderfynwyd:**

a) Y Clerc i geisio prisiau gan gontractwyr am wneud y gwaith a pwysleisio mai yn ystod yr Haf bydd angen gwneud y gwaith.
b) I godi ffioedd y fynwent ar gyfer 2018 / 2019 fel yn yr atodlen

**103. I dderbyn sylwadau ar faterion llwybrau cyhoeddus**

Adroddwyd fod y llwybr o Garreg Fran i fyny yn amhosibl i'w gerdded ar hyn o bryd.

**Penderfynwyd:** Y Clerc i gysylltu a'r Swyddog Llwybrau i adrodd am y broblem

**104. I dderbyn sylwadau ar faterion meysydd chwarae**

Adroddwyd fod yr holiaduron wedi eu dosbarthu o amgylch Cwm y Glo i holi am ddymuniadau pobl Cwm y Glo o beth fyddent yn hoffi weld yn y Cae Chwarae.

Adroddwyd ar gyfer 2018 / 2019 byddai yn fanteisiol cael offer chwarae yn y meysydd chwarae ar gyfer y meysydd chwarae

Yn dilyn llwyddiant yr arferiad o blannu Cennin Pedr oddi amgylch y pentref, holiwyd os byddai yn bosib ehangu'r cynllun a'i plannu ar feysydd chwarae Nant y Glyn a Pwll Moelyn.

**Penderfynwyd:** Derbyn y wybodaeth am yr holiaduron a ceisio syniadau, pa offer fyddai yn fanteisiol ynghyd a phrisiau am yr offer chwarae i'r anabl ac hefyd plannu Cennin Pedr

**105. I addasu fel yn briodol a derbyn y polisi iaith (eisoes wedi derbyn i fyny hyd at 4.5.1 – Tachwedd 2017 - eitem 69)**

**Penderfynwyd:** Gohirio'r eitem yma hyd y cyfarfod nesaf.

**106. I dderbyn adroddiad gan gynrychiolydd y Cyngor Cymuned ar gorff Llywodraethol Ysgol Gynradd Llanrug.**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Llywelyn Williams, cynrychiolydd y Cyngor ar Fwrdd Llywodraethwyr yr Ysgol, nad oedd cyfarfod wedi bod.

**107. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones ar weithgareddau dros y mis yng Nghyngor Gwynedd**

**Bysiau**

Llawer o gwynion yn y ward ac drwy y sir. Dim datrysiad hyd yn hyn. Werth sylwi fod y Cyngor yn gwario £400 mil yn fwy ar y gwasanaeth yma, er fod na lai o fysus.
Aelod Seneddol ac aelod y Cynulliad wedi cyfarfod a'r Prif Swyddog i gleisiau atebion. Rhai syniadau o bosib bysiau cymunedol mewn rhai llefydd.
Mae Express Motors Caernarfon erbyn hyn yn gwmni newydd, wedi newid y tîm rheoli, ac yn cyfarfod y comisiynydd traffig ar 17eg i geisio cael trwyddedau i redeg bysiau eto.

**Setliad Terfynol ar gyfer Llywodraeth Leol yn 2018-19**

Hwn wedi ei gyhoeddi ar 20fed o Ragfyr.
Roedd y setliad i Wynedd yn unol a'r disgwyl; gostyngiad o 0.1% (cyfartaledd Cymru yn 0.5%). Er enghraifft byddai cynnydd o 3.5% ar y Dreth Cyngor yn golygu byddai angen canfod arbedion o £4.2m.
Fydd y gwaith yn dechrau o'r flwyddyn ariannol nesaf i ffeindio mwy o arbedion, wrth fod na ddisgwyl fydd setliad flwyddyn nesaf o bosib yn waeth.
Fydd na benderfyniadau anodd i ddod

**Twf yr economi**

Mae Bwrdd Twf Gogledd Cymru wedi ei sefydlu, hefo'r chwe cyngor ar draws y gogledd yn aelodau
Cais cychwynol wedi ei wneud i lywodraethau Cymru a San Steffan am fuddsoddiad o £340miliwn o gyfalaf a £50miliwn refeniw fel rhan o'r Bargen Twf Economaidd Rhanbarthol. Mae'r gwaith o lunio cynlluniau busnes wedi cychwyn ac fyddant yn sail i drafodaethau gyda'r ddwy lywodraeth.

**Arfor**

Cynllun ydi hwn i hybu economi yr arfordir, sef Môn, Gwynedd, Ceredigion a Chaerfyrddin. £2 filiwn i hybu yr Iaith a'r Economi. Y pedwar Cyngor yn edrych ar gynlluniau iw wario.

**Adnabod Blaenoriaethau ar gyfer Cynllun y Cyngor 2018-23**

Ymgynghoriad wedi dod i ben

**Holiadur Gwasanaeth Ieuenctid i'r Dyfodol**
Hwn hefyd wedi dod i ben

**Yn lleol**

Cynllun uwchraddio y llwybr troed rhwng Cwm y Glo a Llanrug, wedi cael y “go ahead”. Roedd y tendrau i mewn dydd Gwener diwethaf, felly bob peth on trac i gychwyn dechrau yn mis Chwefror.
Dwi wedi cael cadarnhad fod arian wedi ei dderbyn am y gwaith cynllunio, ac fod hwn yn mynd ymlaen rŵan ar y llwybr o Pontrug i Llanrug, gyda’r gobaith o gychwyn ar y gwaith y flwyddyn ariannol nesaf – hefo’r caveat os bydd arian ar gael. Bydd rhaid rhoi pwysau ymlaen hefyd.

**Penderfynwyd:** Derbyn yr adroddiad a diolchwyd i’r Cynghorydd Berwyn Parry Jones am ddod ac adroddiadau misol i’r Cyngor. Roedd y Cyngor o’r farn fod hyn yn fuddiol dros ben.

**108. I dderbyn adroddiad gan y Pwyllgor Hamdden ar eu bwriad ar gyfer 2018 / 2019**

Adroddwyd fod pryder am ysbwriel yn y pentref ac byddai yn fanteisiol creu ymgyrch i dacluso’r pentref yn yr Haf a’i wneud yn ymgyrch cymunedol.

**Penderfynwyd:** Y Clerc i gysylltu a Chyngor Gwynedd i holi os yw’r cynllun Trefi Taclus yn bodoli nawr ac os buasai bosib cael arian o’r cynllun hwnnw.

**109. I dderbyn adroddiad gan Bwyllgor y Fynwent ar gyfer eu bwriad ar gyfer 2018 / 2019.**

Adroddwyd fod angen cychwyn ar y gwaith o ystyried ehangu’r Fynwent oherwydd amcangyfrif byddai y fynwent yn llawn fel mai nawr o fewn tua 5 mlynedd. Nodwyd fod tir gan y Cyngor sydd yn ochri a’r fynwent bresennol ond fod angen ei baratoi.

**Penderfynwyd:** Derbyn yr adroddiad a ceisio pris am ail godi’r wal sydd o amgylch y fynwent ac mai hyn fyddai blaenoriaeth ar gyfer 2018 / 2019

**110. I dderbyn adroddiad gan y Pwyllgor Cyllid**

Adroddwyd fod y Pwyllgor Cyllid wedi cyfarfod ac eu bod wedi trafod y ffioedd ar gyfer y fynwent, ynghyd a cyllideb ar gyfer y flwyddyn 2018 / 2019

**111. I gymeradwyo ffioedd y Fynwent ar gyfer 2018 / 2019**

Adroddwyd fod angen ystyried codi ffioedd y fynwent ar gyfer 2018 / 2019.

**Penderfynwyd:** Codi’r ffioedd yn unol a’r atodiad

**112. I osod praesept ar gyfer 2018 / 2019**

**Penderfynwyd:** Gosod praeseptu ar gyfer 2018 / 2019 yn £42,000

**113. Cais Cynllunio**

**Rhif Cyfeirnod Cais Cynllunio:** C17/1250/23/LL

**Rhif Cyfeirnod Porth Cynllunio:**

**Lleoliad y Safle:** Capel Bryngwyn, Ffordd Bryngwyn, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL554AP

**Dyddiad Cofrestru:** 19-Rhagfyr-2017

**Math o Gais:** Llawn - Cynllunio

(Noder - Os yw'r math o gais yn Farn sgrinio / sgopio: Nid yw hwn yn gais cynllunio ond yn hytrach yn gofyn am farn y Cyngor ynglŷn â'r angen neu beidio am Asesiad Effaith Amgylcheddol)

**Ward:** Llanrug

**Cymuned:** Llanrug

**Bwriad:** Newid defnydd Capel segur yn uned wyliau ar osod ynghyd a gwelliannau i'r fynedfa a darparu cyfleusterau parcio

**Statws:** Cais wedi cofrestru

**Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad i'r cais ond nodwyd fod y dyddiad cau yn anghywir yn y cais. Roedd y dyddiad wedi ei nodi fel 2010 ond Rhagfyr 2015 y caewyd y Capel. Nodwyd ymhellach fod bedd i ddau wrth ymyl drws ffrynt y capel ac nid oedd sôn am hynny yn y cais

**114. I benderfynu pa gamau i'w cymryd i ymdrin a ysbwriel ar ochr gwaelod Lôn Glanmoelyn hyd at Pen Greuor. (Cynghorydd Llywelyn Williams)**

.

Adroddwyd gan y Cynghorydd Llywelyn Williams, fod problem gyda ysbwriel ar hyd y ffordd fawr ac i fyny o'r ffordd fawr i gyfeiriad y groesffordd Pwll Moelyn.

**Penderfynwyd:** Y Clerc i gysylltu a Chyngor Gwynedd i holi am y posibilrwydd o gael bin.

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiad am yr uchod neu am waith y Cyngor tuag at y

Clerc: Mr Meirion Jones PSLCC
7 Nant y Glyn
Llanrug
LL55 4AH
☎ 07769 112875
clerc@llanrug.cymru